| | |
|---|---|
| **Awdur / Ceidwad:** | John Donnelly |
| **Dyddiad cytuno a gweithredu:** | |
| **Cytunwyd gan:** | Y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol |
| **Amlder Adolygu:** | Tair blynedd os na chaiff ei ddiwygio. |
| **Dyddiad adolygu:** | |
| **Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau: (dyddiad)** | Amherthnasol |
| **Cyfraniad Aelodau (os o gwbl)** | Aelod Cabinet / Pwyllgor Trwyddedu |
| **Mewnol neu Gyhoeddus:** | Mewnol / cyhoeddus |

| **RHEOLI FERSIYNAU:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod:** | **Statws:** | **Awdurdodwyd gan:** | **Dyddiad:** |
| 001 | | | |
| 002 | | | |
| 003 | | | |
| 004 | | | |
| 005 | | | |
| 006 | | | |

DRAFT

**Cynnwys**

Adran 1 Cyflwyniad

Adran 2 **Trwyddedu Cerbydau Hacni:** Perchnogion

Adran 3 **Trwyddedu Cerbydau Hacni:** Gyrwyr

Adran 4 **Trwyddedu Cerbydau Hacni:** Prisiau

Adran 5 **Trwyddedu Cerbydau Hacni:** Safleoedd Tacsis

Adran 6 **Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat:** Gweithredwyr

Adran 7 **Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat:** Cerbydau

Adran 8 **Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat:** Limwsinau Hir a Cherbydau Difyrrwch

Adran 9 **Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat:** Cerbydau Eithriedig, Hurio Cerbydau Uwchraddol, Gwasanaethau Gyrrwr, Teithio i Faes Awyr

Adran 10 **Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat:** Gyrwyr

Adran 11 **Cerbydau Hacni Difodur**

Adran 12 **Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat:** Mesurau Disgyblu a Gorfodi

Adran 13 **Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat:** Pwerau Dirprwyedig

Adran 14 **Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat:** Troseddau

Adran 15 **Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat:** Ffioedd a Thaliadau

**Atodiadau**

**Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat**

Atodiad A – Amodau Cyffredinol / Is-ddeddfau *(Is-ddeddfau Cerbydau Hacni), (Amodau Trwyddedu Hurio Preifat)*

Atodiad B – Rhestr Wirio Archwilio Cerbydau Prawf Cerbydau (Amod Eithriadol)

Atodiad C – Polisi Cerbydau Uwchraddol *(Amodau Hurio Cerbydau Uwchraddol 2021)*

**Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat**

Atodiad D – Cod Ymddygiad Da ar gyfer Gyrwyr Trwyddedig, yn cynnwys cod gwisg *(i'w gadarnhau)*

Atodiad E – Gweithdrefn ymgeisio a phrofi ymgeiswyr Gweithdrefn Ymgeisio a Phrofi Ymgeiswyr

*Gyrrwr Hurio Preifat – Caniatâd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*, *Gyrrwr Cerbyd Hacni – Caniatâd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*

Atodiad F – Ystyried ymgeiswyr, Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac Euogfarnau Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac Euogfarnau Atodiad G – Troseddau *(i'w gadarnhau)*

Atodiad H – Cerdyn prisiau *(Cerdyn Prisiau Cerbydau Hacni 2025)*

**Cerbydau Hacni**

Atodiad I – Safleoedd Cerbydau Hacni / Tacsis *Safleoedd Cerbydau Hacni*

Atodiad J – Hysbysebu cerbydau *Polisi Hysbysebu ar gyfer Tacsis*

Atodiad K – Polisi manyleb cerbydau *Polisi Manyleb Cerbyd Cludo Hacni*

**Cerbydau Hurio Preifat a Gweithredwyr**

Atodiad L – Amodau Cerbydau Hurio Preifat a Gweithredwyr *Amodau Trwyddedu Hurio Preifat*

Atodiad M – Polisi esemptiad cerbydau hurio preifat *Amodau Hurio Cerbydau Uwchraddol 2021*

**Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat**

Atodiad N – Cerbydau Hurio Preifat – Amodau'r Gyrwyr *Amodau Gyrwyr*

**Cerbydau Difodur – Amodau Gyrwyr a Cherbydau**

Atodiad P – Amodau car a cheffyl *(i'w cadarnhau)*

Atodiad Q – Cerbydau difodur *(i'w gadarnhau)*

**Tystysgrif Cydymffurfiaeth**

Atodiad R – Rhestr o Orsafoedd Profi ar gyfer Tystysgrif Cydymffurfiaeth Gorsaf Brofi Garej Tystysgrif Cydymffurfiaeth

Atodiad S – Cais ac amodau gorsafoedd profi Tystysgrif Cydymffurfiaeth *(i'w cadarnhau)*

**Gweithdrefnau ar gyfer gwrandawiad**

Atodiad T *(i'w gadarnhau)*

**Pwerau dirprwyedig**

Atodiad U *(i'w gadarnhau)*

**Canllawiau Ad-daliad (ceisiadau)**

Atodiad V *Canllawiau Ad-daliadau Ffioedd*

DRAFT

# 1. Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y datganiad polisi trwyddedu hwn yn unol â'r pwerau a roddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, fel y'i diwygiwyd, sy'n rhoi'r ddyletswydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (yr "Awdurdod Trwyddedu") i gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu parthed cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Mae'r polisi hefyd yn rhoi ystyriaeth i Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, Deddf Trafnidiaeth 2000, Deddf Cydraddoldeb 2018, Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Canllawiau Statudol yr Adran Drafnidiaeth a Chanllawiau Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat.

Wrth nodi ei bolisi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n hybu'r amcanion canlynol:

- Gwarchod iechyd a diogelwch y cyhoedd
- Sefydlu masnach cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat sy'n broffesiynol ac uchel ei pharch
- Mynediad at wasanaeth cludiant cyhoeddus effeithlon ac effeithiol
- Gwarchod yr amgylchedd
- Diogelu plant ac oedolion diamddiffyn.

Wrth hybu'r amcanion uchod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n croesawu egwyddorion:

- Tegwch a rhesymoldeb i ddefnyddwyr tacsis a'r fasnach
- Hybu masnach rydd
- Proses gwneud penderfyniadau agored ac ymgynghorol lle bo'r angen.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried canllawiau arferion gorau lle bo'n berthnasol; e.e. gan y Sefydliad Trwyddedu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru.

Wrth arfer ei ddisgresiwn i gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dal sylw ar y ddogfen bolisi hon a'r amcanion a nodir uchod.

Er gwaethaf bodolaeth y polisi hwn, ystyrir pob cais neu fesur gorfodi yn ôl ei rinweddau ei hun. Os bydd yn angenrheidiol i'r Awdurdod Trwyddedu wyro'n sylweddol oddi wrth ei bolisi, rhoddir rhesymau clir a chymhellol dros wneud hynny.

Wrth gyflawni ei swyddogaeth reoleiddio bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud hynny yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Pholisi Gorfodi Gwarchod y Cyhoedd, ac mewn ffordd dryloyw, atebol, cymesur a chyson.

Nod y broses drwyddedu yn y cyd-destun hwn yw rheoleiddio'r fasnach cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat er mwyn hybu'r amcanion uchod. Dymuniad yr Awdurdod Trwyddedu yw hwyluso busnesau cyfrifol, sy'n cael eu rhedeg yn dda, sy'n dangos sensitifrwydd tuag at anghenion y cyhoedd.

Bydd y polisi'n dod i rym o ********, ac yn ystod yr amser hwnnw fe'i hadolygir a'i ddiwygio fel y bo'n briodol. Cynhelir adolygiad llawn bob tair blynedd.

Ar ôl rhoi'r polisi hwn ar waith, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ddeiliaid trwydded i gydymffurfio â'i delerau ar unwaith, ac eithrio mewn perthynas â darpariaethau perthnasol

DRAFT

y pennwyd amserlen iddynt ar gyfer cydymffurfiaeth o fewn yr adran berthnasol o'r polisi hwn.

Wrth lunio'r polisi hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymgynghori lle bo'r angen â'r canlynol:

- Cynrychiolwyr grwpiau sefydledig o'r fasnach cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Sir Conwy (Contractau Ysgolion)
- Y Grŵp Ymgynghorol perthnasol ar Gludiant i Bobl Anabl
- Preswylwyr drwy eu cynrychiolwyr (Cynghorau Tref a Chymuned)
- Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Conwy (tîm amddiffyn plant ac unigolion diamddiffyn)
- Swyddogion Amrywiaeth a Chydraddoldeb Sir Conwy.

# 2. Trwyddedu Cerbydau Hacni – Perchnogion

**Ymgeisio am Drwydded (ar-lein yn unig)**

Dylai pobl sy'n dymuno gwneud cais am drwydded Cerbyd Hacni, neu gais i adnewyddu un, wneud hynny ar-lein gan ddefnyddio ffurflen benodedig yr Awdurdod Trwyddedu.

Dylid cyflwyno'r canlynol gyda'r ffurflenni:

- Dogfen cofrestru cerbyd (V5) neu ddogfen brydles
- Tystysgrif yswiriant yn dangos yr yswiriant at ddibenion hurio ac ennill tâl
- Tystysgrif Cydymffurfiaeth (TC) gyfredol
- Ffi gyfredol y drwydded.

Rhoddir trwyddedau am gyfnod o flwyddyn. Bydd peidio ag adnewyddu trwydded cyn y dyddiad terfyn yn golygu bod yr ymgeisydd yn gorfod gwneud cais newydd am drwydded cerbyd.

Gall y gofyniad hwn i wneud cais newydd ar ôl peidio ag adnewyddu un gael ei anwybyddu mewn amgylchiadau 'eithriadol' ac ar ôl ymgynghori â Chadeirydd / Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol os oes amgylchiadau annisgwyl; er enghraifft, os oedd yr ymgeisydd yn methu gwneud cais oherwydd damwain sylweddol neu argyfwng.

I fod yn gymwys i gael adnewyddu trwydded, mae'n rhaid cyflwyno cais 28 niwrnod cyn iddi ddod i ben.

**Ystyriaethau Amgylcheddol**

Mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r defnydd o gerbydau sy'n defnyddio tanwyddau sy'n well i'r amgylchedd neu unedau pŵer.

Ystyrir y dylid gwneud ymdrechion, drwy'r polisi trwyddedu, i wella effeithlonrwydd y cerbydau a drwyddedir yn y Sir gymaint â phosibl, gan ostwng lefelau'r $CO_2$ a allyrrir. Mae cerbydau LPG, trydan, hybrid, a rhai sy'n cael eu pweru gan bobl a cheffylau'n dderbyniol.

**Amodau**

Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu y grym i osod amodau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol yn rhesymol wrth ddyfarnu neu adnewyddu trwydded cerbyd hacni. Mae'r canlynol yn cynrychioli'r safonau sylfaenol a ddisgwylir. Dylid eu darllen ar y cyd â'r amodau ar gyfer cerbydau hurio preifat a nodir yn Atodiad A.

**Cyfyngu Niferoedd**

Nid oes gan yr Awdurdod Trwyddedu unrhyw bolisi nac awydd i gyfyngu ar nifer y cerbydau hacni y gellir eu trwyddedu yn Sir Conwy. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn golygu na ddylid rheoleiddio cerbydau hacni, a bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw bod ansawdd yn cael ei reoli'n drwyadl mewn perthynas â'r cerbyd a'r gyrrwr.

**Hygyrchedd Cerbydau**

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ymroddedig i ddarparu mynediad i bawb.

Mae gan swyddogion bwerau wedi eu dirprwyo i roi trwydded pan fo cais yn bodloni holl ofynion y polisi a'r fanyleb. Nid oes gan swyddogion y grym i wrthod cais am drwydded y tu allan i'r polisi. Felly, os gwneir cais am drwydded cerbyd hacni ac nid yw'r cerbyd dan sylw'n bodloni unrhyw ofyniad, gellir cyfeirio'r cais mewn ymgynghoriad â'r ymgeisydd at y Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried.

Polisi manyleb cerbydau hacni, Atodiad K.
Amodau trwydded cerbydau hurio preifat, Atodiad L.

**Uchafswm Oedran y Cerbydau**

Mae'n rhaid i bob cerbyd newydd i'r fflyd fod dan 5 mlwydd oed (ac eithrio cerbydau hygyrch). Gellir cyfeirio unrhyw gerbydau sydd dros y trothwy hwn at yr Is-bwyllgor Trwyddedu i'w hystyried.

- Wrth gofrestru cerbydau hygyrch sy'n hŷn na phum mlwydd oed am y tro cyntaf, mae'n rhaid eu cyflwyno i'r swyddog dirprwyedig ac er mwyn cael Tystysgrif Cydymffurfiaeth mae'n rhaid i'r cerbydau fod mewn cyflwr eithriadol (gan gynnwys unrhyw rampiau, strapiau, bracedi, gosodiadau ac ati).

Ystyrir pob cais cerbyd yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd ffactorau fel cyflwr cyffredinol, cofnodion cynnal a chadw, a milltiredd y cerbyd, yn berthnasol.

Nid yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i gerbydau difodur neu gerbydau difyrrwch.

**Maint Cerbydau**

Gellir trwyddedu cerbydau ar gyfer hyd at wyth teithiwr.

**Hysbysebu**

Mae hysbysebion a ganiateir sy'n ymwneud â busnes perchnogion cerbydau a rhai hysbysebion ychwanegol neu drydydd parti wedi eu nodi yn Atodiad L ac Atodiad J.

**Profi Cerbydau – Tystysgrif Cydymffurfiaeth (TC)**

Dylid profi cerbyd hacni ddwywaith y flwyddyn.

Mae'n rhaid i'r prawf gael ei wneud gan archwilydd MOT awdurdodedig mewn gorsaf brofi a gymeradwywyd gan y Weinyddiaeth Drafnidiaeth a'r Awdurdod Trwyddedu.

Mae rhestr o'r gorsafoedd profi awdurdodedig ar gael yn Atodiad R.

Mae'r rhestr archwilio lawn yn Atodiad B.

**Cynllun Lliwiau**

Ar wahân i blatiau trwydded cerbydau, nid oes unrhyw ofynion i arddangos logo'r Cyngor ar gerbydau.

# 3. Trwyddedu Cerbydau Hacni – Gyrwyr

**Amodau / Is-ddeddfau**

Er na chaniateir i'r Awdurdod Trwyddedu roi amodau ar drwydded gyrrwr cerbyd hacni, mae'n rhaid i bob gyrrwr cerbyd hacni sy'n gweithredu yng Nghonwy gadw at gyfres o is-ddeddfau a nodir yn Atodiad A.

Yn ogystal, bydd gyrwyr cerbydau hacni sydd wedi eu trwyddedu hefyd i yrru cerbydau hurio preifat yn gorfod cydymffurfio â'r amodau sy'n berthnasol i yrwyr cerbydau hurio preifat yn Atodiad A.

**Cod Ymddygiad Da**

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried na ddylai gyrrwr proffesiynol godi tâl sy'n uwch na'r pris uchaf, dylai ddefnyddio technegau gyrru diogel a goddefol a bod yn esiampl dda i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd. Nodwyd y safonau a ddisgwylir yn y Cod Ymddygiad Da, yn ogystal â'r cod gwisg – gweler Atodiad D.

**Oedran, Profiad a Chymwysterau**

Er na roddir cyfyngiad oedran, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi trwydded gyrru cerbyd hacni i unrhyw rai oni bai bod ganddynt drwydded yrru lawn ers blwyddyn o leiaf, a bydd yn ystyried cyflwyno'r cymwysterau a restrir isod:

- Prawf Asesu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yr Asiantaeth Safonau Gyrru

- Tystysgrif BTEC Lefel 2, Cyflwyniad i Rôl Gyrrwr Tacsi a Cherbyd Hurio Preifat Proffesiynol (a elwid gynt yn Wobr Ganolradd BTEC mewn Cludo Teithwyr mewn Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat)

- NVQ Lefel 2 Edexcel mewn Gyrru Cerbyd Teithwyr Ffyrdd (Cymunedol, Cerbydau Hurio Preifat / Hacni a Gyrwyr (*Chauffeurs*))

- NVQ Lefel 2 Edexcel mewn Gyrru Cerbyd Cludo Teithwyr, neu gymhwyster cyfwerth neu uwch a gymeradwywyd gan yr Awdurdod.

Er na fydd yn ofynnol i yrwyr presennol ymgymryd â Phrawf Asesu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yr Asiantaeth Safonau Gyrru neu Wobr Ganolradd BTEC mewn Cludo Teithwyr mewn Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat, fe'u hanogir i wneud profion o'r fath a'u pasio os ydynt yn cael eu cyflwyno.

Dylid nodi y byddai gyrwyr presennol nad ydynt yn cyflwyno cais i adnewyddu eu trwydded ar amser yn cael eu trin fel ymgeiswyr am drwydded newydd. Cynghorir yr holl yrwyr i nodi dyddiad terfyn eu trwydded yn eu dyddiadur, a gwneud cais am ei hadnewyddu o leiaf 28 niwrnod cyn y daw i ben.

Gall y gofyniad hwn i wneud cais newydd ar ôl peidio ag adnewyddu un gael ei anwybyddu mewn amgylchiadau 'eithriadol' ac ar ôl ymgynghori â Chadeirydd / Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol os oes amgylchiadau annisgwyl; er enghraifft, os oedd yr ymgeisydd yn methu gwneud cais oherwydd damwain sylweddol neu argyfwng.

**Awdurdodiad i Weithio yn y DU**

Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd ddangos bod ganddo hawl i weithio yn y DU cyn y gellir ystyried cais am drwydded gyrrwr. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu ei weithdrefnau ymgeisio yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

Mae mwy o wybodaeth i'w chael yma: www.ukba.homeoffice.gov.uk. Gall yr Awdurdod Trwyddedu sganio ac anfon dogfennau adnabod i'r Swyddfa Gartref.

**Ymgeiswyr nad ydynt o'r DU**

Mae'n ofynnol, yn rhan o'r broses drwyddedu, i bob ymgeisydd am drwydded Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat nad yw o'r DU i ddarparu Tystysgrif Ymddygiad Da wedi ei hysgrifennu yn Saesneg neu ddogfen gyfwerth gan Lysgenhadaeth neu Uwch Gomisiwn priodol y wlad / gwledydd y mae wedi byw ynddynt. Yn ogystal, bydd yn ofynnol cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r amodau isod.

Yn rhan o'r broses drwyddedu, rhaid i ymgeiswyr nad ydynt o'r DU gofrestru eu trwyddedau gyrru nad ydynt o'r DU gyda'r DVLA er mwyn gallu cyflwyno trwydded gyfatebol y DU iddynt.

Yn rhan o'r broses drwyddedu, mae'n rhaid i ymgeiswyr nad ydynt o'r DU ddarparu tystiolaeth o'u hawl i weithio yn y DU i'r Awdurdod.

**Gweithdrefn Ymgeisio**

Dylid gwneud pob cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni drwy borth ar-lein penodedig y Cyngor. Mae'r weithdrefn ymgeisio i'w gweld yn Atodiad E.

**Gwiriad Trwydded Gyrrwr y DVLA**

Yn rhan o brawf cymwys ac addas (diogel ac addas) y Cyngor, mae'n rhaid i bob ymgeisydd lofnodi mandad datgelu'r DVLA, sy'n ddilys am gyfnod o dair blynedd. Mae mandad y DVLA yn caniatáu i staff cymeradwy'r Cyngor gael mynediad at system y DVLA ar y we i wirio hawliau a chymeradwyaethau trwyddedau gyrru.

Os yw gyrrwr yn penderfynu peidio â llofnodi mandad datgelu pan ofynnir am hynny ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded, bydd y drwydded yn cael ei hatal hyd nes y gellir cadarnhau dilysrwydd ei drwydded DVLA, gan ddangos ei fod yn unigolyn cymwys ac addas.

Ni chymeradwyir ceisiadau am drwydded hyd nes i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn yr holl ddata yn ymwneud â hawl a chymeradwyaeth ar gyfer trwydded yrru, a bod y data hynny'n foddhaol yn unol â'r polisi hwn.

**Gwiriad Treth**

Mae'n rhaid cyflwyno gwiriad treth gyda phob cais i adnewyddu trwydded. Mae hyn hefyd yn berthnasol os yw trwydded wedi dod i ben o fewn y 12 mis diwethaf. Cwblhau gwiriad treth ar gyfer trwydded tacsi, trwydded hurio preifat neu drwydded fetel sgrap – GOV.UK

**Gwiriad NAFN**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cynnal gwiriad ar y rhwydwaith gwrth-dwyll cenedlaethol ar gyfer gyrwyr y gwrthodwyd trwydded iddynt yn flaenorol, a gyrwyr y mae eu trwydded wedi ei dirymu a / neu ei hatal.

**Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

**Mae'n rhaid i bob ymgeisydd a gyrrwr gofrestru â'r DVLA (gwasanaeth gwirio)**

Cyn i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried cais am drwydded gyrrwr, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu datgeliad manylach perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o euogfarnau troseddol.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr sy'n dymuno adnewyddu eu trwyddedau gyrrwr ddarparu datgeliadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd, neu ynghynt os bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am hynny.

Mae'r Cyngor dan rwymedigaeth rheolau cyfrinachedd, ac ni fydd yn datgelu gwybodaeth a dderbyniodd i unrhyw drydydd parti, oni bai ei bod yn ofynnol gwneud hynny yn unol â deddfwriaeth: Diogelu Data – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Dylid cymryd gofal i lenwi ffurflenni cais y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gywir, oherwydd bydd peidio â gwneud hynny'n peri oedi yn y broses o gael datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Perthnasedd Euogfarnau a Rhybuddiadau**

Wrth asesu a yw'r ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas (diogel ac addas) i ddal trwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried unrhyw rybuddiadau ac euogfarnau – pa un a ydynt wedi eu disbyddu neu heb eu disbyddu – ond dim ond cyn belled ag y maent yn berthnasol i'r cais am drwydded. Mae gwybodaeth berthnasol ar gael yn Atodiad F.

**Archwiliad Meddygol**

Mae tystysgrif feddygol yn ofynnol cyn y gellir rhoi trwydded, beth bynnag fo oedran yr ymgeisydd. Mae'n ofynnol bod yr ymgeisydd yn cyrraedd safon ffitrwydd meddygol Grŵp 2 y DVLA ar gyfer gyrwyr proffesiynol.

Mae'n rhaid i dystysgrifau gael eu cwblhau gan feddyg teulu sydd â mynediad at gofnodion meddygol llawn yr ymgeisydd.

Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu ffurflenni archwiliad meddygol penodedig; maent ar gael i'r ymgeiswyr eu cyflwyno i'w meddyg. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am dalu'r ffi am unrhyw archwiliad i'r feddygfa berthnasol.

Mae'n rhaid i yrwyr presennol gyflwyno tystysgrif feddygol newydd i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn saith niwrnod i'r dyddiad y daw'r dystysgrif flaenorol i ben.

Mae'n rhaid i unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded dderbyn archwiliad meddygol bob 6 blynedd, ond mae'n rhaid i unigolion sy'n 65 mlwydd oed neu'n hŷn gael archwiliad yn flynyddol.

Mae'n rhaid i ddeiliaid trwydded roi gwybod i'r Cyngor ar unwaith os oes unrhyw ddirywiad yn eu hiechyd a allai effeithio ar eu gallu i yrru, ac a allai ddirymu eu gallu i basio archwiliad safon feddygol Grŵp 2. Mae enghreifftiau'n cynnwys pwysedd gwaed uchel, angina, diabetes, anhwylder ar y golwg, llewygu, colli ymwybyddiaeth, cymryd cyffuriau neu alcoholiaeth, heb fod yn gyfyngedig i'r rhain. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â ffitrwydd meddygol yr ymgeisydd, efallai y bydd yn ofynnol gan yr Awdurdod Trwyddedu i'r ymgeisydd dderbyn a thalu am archwiliad meddygol arall gan feddyg a benodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd argymhelliad y Meddyg yn derfynol.

**Profi Ymgeiswyr**

Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi trwydded i yrru cerbyd hacni oni bai ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas (diogel ac addas). Er mwyn gwneud penderfyniad ynglŷn â chymhwystra o'r fath, bydd gofyn i'r ymgeisydd gyflawni'r profion ysgrifenedig canlynol yn ymwneud â'i wybodaeth am y canlynol:

- Daearyddiaeth leol
- Rheolau'r Ffordd Fawr
- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat
- Rhifedd a thaliadau.

Nodir y gweithdrefnau yn ymwneud â'r uchod yn Atodiad E.

DRAFT

Bydd ymgeiswyr sydd wedi derbyn Statws Aur Llysgenhadon Conwy yn cael gostyngiad o 50% ar ffioedd profi wrth gyflwyno'u tystysgrif. Cwrs Llysgennad Twristiaeth Conwy – Llysgennad Cymru

**Ystyried Ceisiadau**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ceisiadau pan fydd y profion priodol wedi eu gwneud, a'r ffurflen gais a'r dogfennau ategol wedi eu llenwi. Mae elfennau perthnasol y weithdrefn i ystyried rhinweddau'r cais wedi eu nodi yn Atodiad E.

**Rhoi Trwyddedau**

Rhoddir trwydded gyrrwr cerbyd hacni i ymgeisydd llwyddiannus am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad ei chaniatáu.

**Adnewyddu**

Er nad oes dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Trwyddedu i atgoffa pobl, gall deiliaid presennol trwyddedau gyrwyr cerbyd hacni dderbyn nodyn atgoffa yn y mis cyn i'w trwydded ddod i ben, pan fo'n bryd i'w hadnewyddu.

Mae'n rhaid cyflwyno ffurflenni cais, y ffioedd priodol, a dogfennau ategol, fel y nodir yn Atodiad E, o leiaf 7 niwrnod cyn i'r drwydded flaenorol ddod i ben. (Ni fydd unrhyw gyfnod gras ar ôl y dyddiad terfyn oni bai bod amgylchiadau eithriadol.)

Argymhellir bod gyrwyr yn nodi dyddiad terfyn eu trwydded yn eu dyddiadur a gwneud cais mewn da bryd. Mae'n ofynnol i rai sy'n gwneud cais am adnewyddu eu trwydded dderbyn gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd, neu ynghynt os bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am hynny.

# 4. Trwyddedu Cerbydau Hacni – Prisiau

**Cyfraddau a Ragnodwyd**

Ni chaiff gyrrwr cerbyd hacni – naill ai drwy gytundeb neu fel arall – godi tâl sy'n uwch na'r gyfradd a ragnodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu yn rhestr brisiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gyhoeddwyd.

**Tabl Prisiau**

Mae'r prisiau uchaf a ragnodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu i'w gweld mewn dogfen ar wahân. Darperir cerdyn tariff awdurdodedig i bob deiliad trwydded cerbyd hacni, ac mae'n rhaid ei ddangos ym mhob cerbyd fel bod pawb sy'n eu hurio yn gallu ei weld yn hawdd; gweler Atodiad H.

**Prisiau ar Wahân**

DRAFT

Gellir defnyddio cerbyd hacni trwyddedig neu gar hurio trwyddedig i'w hurio neu i ennill tâl ar brisiau ar wahân, OND DIM OND:

- Pan fo'r holl deithwyr a gludwyd ar yr achlysur dan sylw wedi trefnu eu siwrneiau ymlaen llaw
- Pan fo pob teithiwr wedi cydsynio, wrth archebu'r siwrnai, i rannu'r defnydd o'r cerbyd ar yr achlysur hwnnw gydag eraill ar y sail y byddai pris ar wahân yn daladwy gan bob teithiwr am ei siwrnai ei hun ar yr achlysur
- Pan nad yw cyfanswm y pris ar gyfer yr holl deithwyr yn uwch na'r pris ar y mesurydd ar gyfer y siwrnai.

Bydd gyrrwr / gweithredwr y cerbyd hurio preifat yn gwneud ei gytundeb ei hun â'r sawl sy'n hurio parthed y pris am siwrnai benodol.

**Adolygu**

Adolygir rhestr brisiau cerbydau hacni pan dderbynnir ceisiadau ysgrifenedig, a bydd yn cael ei chyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad.

**Meini Prawf Prisiau / Tariff**

Wrth ystyried ceisiadau i amrywio tabl prisiau ac wrth ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn ymateb i'r cyfnod ymgynghori statudol ar gyfer adolygu prisiau / tariff, defnyddir y meini prawf canlynol:

- Cymesur â'r ardal leol
- Wedi ei feincnodi ag Awdurdodau Lleol eraill
- Wedi ei gyfiawnhau
- Syml ac yn hawdd cyfrifo
- Wedi ei ddylunio er mwyn bod yn ymarferol
- Yn unol â chanllawiau arferion gorau a gyhoeddwyd
- Cywir yn fathemategol ac yn bosibl ei roi ar fesurydd
- Aros yr un fath i bob cerbyd, ni waeth os oes nifer gwahanol o seddi.

**Codi tâl sy'n is na'r uchafswm**

Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth berthnasol na'r polisi hwn sy'n atal gyrrwr cerbyd hacni rhag codi tâl sy'n is na'r pris a ddangosir ar y mesurydd.

**Derbynebau**

Mae'n rhaid i yrrwr cerbyd hacni, os yw teithiwr yn gofyn, ddarparu derbynneb ysgrifenedig iddo / iddi am y pris a dalwyd.

Mae'n rhaid i berchnogion cerbydau hacni sicrhau ei bod yn bosibl gwneud taliadau ag arian parod a thaliadau digidol (cerdyn) ym mhob cerbyd hacni trwyddedig.

DRAFT

# 5. Trwyddedu Cerbydau Hacni – Safleoedd Tacsis

**Safleoedd Penodedig**

Er nad oes gofyniad i bennu safleoedd, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi pennu nifer o safleoedd ar gyfer cerbydau hacni o fewn ardal y Fwrdeistref Sirol – ar dir cyhoeddus ac ar dir preifat.

Rhestrir y safleoedd penodedig yn Atodiad I.

Mae'n rhaid, yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd 1926, i gerbydau hacni sy'n ceisio busnes ar safleoedd sydd ar dir y rheilffordd gadw at is-ddeddfau'r Awdurdod Trwyddedu sy'n ymwneud â'r defnydd o gerbydau hacni.

Amlygir y safon ymddygiad ar gyfer safleoedd hacni yng nghod ymddygiad y gyrwyr a'r is-ddeddfau.

# 6. Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat – Gweithredwyr

**Gofyniad am Drwydded Gweithredwyr**

Mae'n rhaid i bob gweithredwr cerbydau hurio preifat gael trwydded i weithredu gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**Amodau**

Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu bŵer i osod amodau ar drwydded gweithredwr y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol yn rhesymol.

Mae'r amodau safonol a ystyrir fel arfer yn angenrheidiol yn rhesymol wedi eu nodi yn Atodiad L.

**Ceisiadau**

Cyflwynir cais am drwydded gweithredwr ar-lein drwy'r ffurflen benodedig, ynghyd â datgeliad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r ffi briodol.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded gweithredwr, ac, os ydyw, bydd yn rhoi trwydded am gyfnod o bum mlynedd (mewn amgylchiadau eithriadol ar ôl penderfyniad gan y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol gellir rhoi trwydded am gyfnod llai).

Ar gyfer partneriaethau, cwmnïau cyfyngedig ac ati, bydd gofyn i bob cyfarwyddwr / partner gyflwyno gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Prawf Gweithredwyr**

Mae'n rhaid i bob gweithredwr, cyfarwyddwr neu bartner sy'n gysylltiedig â busnes gweithredwr sefyll prawf gweithredwyr. Bydd hyn yn profi gwybodaeth y gweithredwr o amodau hurio preifat.

**Cyfeiriad y gall gweithredwr weithredu ohono**

Ar ôl rhoi trwydded gweithredwr, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n nodi'r cyfeiriad (fel y cyflwynwyd os oes caniatâd priodol wedi ei roi) y gall y gweithredwr weithredu ohono.

Mae'n ofynnol i weithredwyr sy'n gweithredu o eiddo sy'n agored i'r cyhoedd, ac y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, ddarparu prawf o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer yr eiddo hyd at £4 miliwn.

Dylid nodi nad oes modd trosglwyddo trwydded gweithredwr o eiddo i eiddo.

**Cofnodion / Dogfennaeth**

Mae'n rhaid i ddogfennau a chofnodion gweithrediad cerbydau hurio preifat trwyddedig fod ar gael i swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu ar unrhyw adeg resymol neu ar unrhyw adeg pan fo'r busnes cerbydau hurio preifat yn gweithredu, yn unol ag Atodiad L.

**Prisiau**

Bydd gweithredwr cerbyd hurio preifat yn gwneud ei gytundeb ei hun â'r sawl sy'n hurio parthed y pris am siwrnai benodol, yn unol ag Atodiad L.

**Parcio yng Nghyfeiriad y Gweithredwr**

Byddai'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod gweithredwyr yn parcio pob cerbyd trwyddedig mewn modd cyfreithlon ac mewn lle neu safle sy'n golygu nad yw'r cerbydau'n achosi perygl neu niwsans i'r cyhoedd.

# 7. Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat – Cerbydau

**Uchafswm Oedran y Cerbydau**

Mae'n rhaid i bob cerbyd newydd i'r fflyd fod dan 5 mlwydd oed. Gellir cyfeirio unrhyw gerbydau sydd dros y trothwy hwn at y Pwyllgor Trwyddedu i'w hystyried.

Amodau trwydded cerbydau hurio preifat, Atodiad L.

Ystyrir pob cais o'r fath yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd ffactorau fel cyflwr, cofnod cynnal a chadw, a milltiredd y cerbyd, yn berthnasol.

**Maint Cerbydau**

Gellir trwyddedu cerbydau ar gyfer hyd at wyth teithiwr.

**Hysbysebu**

Mae darpariaethau manwl ynglŷn â chaniatáu marciau ar gerbydau sy’n ymwneud â busnes y perchennog i’w gweld yn Atodiad J.

**Profi Cerbydau (TC)**

Profir cerbyd hurio preifat ddwywaith y flwyddyn.

Mae’n rhaid i archwilydd MOT awdurdodedig mewn gorsaf brofi a gymeradwywyd gan y Weinyddiaeth Drafnidiaeth a’r Awdurdod Trwyddedu gynnal y prawf.

Mae rhestr o’r gorsafoedd profi awdurdodedig ar gael yn Atodiad R.

Mae’r rhestr archwilio lawn yn Atodiad B.

**Cynllun Lliwiau**

Ar wahân i blatiau trwydded cerbydau, nid oes unrhyw ofynion i arddangos logo’r Cyngor na hysbysiadau ar gerbydau.

# 8. Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat – Limwsinau Hir a Cherbydau Difyrrwch

Cyfeirir pob cais am drwydded cerbyd hurio preifat ar gyfer limwsinau hir neu gerbydau difyrrwch at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol am benderfyniad yn ôl rhinweddau unigol.

Nodir yr amodau yn Atodiad L.

# 9. Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat – Hurio Cerbydau Uwchraddol, Gwasanaethau Gyrrwr, Teithio i Faes Awyr, Cerbydau Eithriedig, ac ati

**Cerbydau Angladd**

Nid oes gofyniad i gerbyd gael ei drwyddedu os yw’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag angladd, neu os yw’n cael ei ddefnyddio’n llwyr neu’n bennaf at ddiben angladdau gan unigolyn sy’n cynnal busnes Trefnydd Angladdau.

**Cerbydau Priodas**

Nid oes yn rhaid i gerbyd gael ei drwyddedu tra mae’n cael ei ddefnyddio mewn perthynas â phriodas.

**Ambiwlansys / Cerbydau sy’n Gweithredu fel Gwasanaethau Cludo Cleifion Ffurfiol**

DRAFT

Mae gyrwyr sy'n gweithredu'r mathau hyn o gerbydau yn annhebygol o fod arnynt angen trwydded os ydynt yn cludo cleifion yr aseswyd bod angen meddygol am gludiant arnynt, mae'n rhaid iddynt gadw at gyfreithiau cyfrinachedd cleifion, a chyflawnwyd hyfforddiant i yrwyr a gwiriadau cefndir dan y cynllun Gwasanaeth Cludo Cleifion.

# 10. Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat – Gyrwyr

**Amodau**

Mae'r pŵer gan yr Awdurdod Trwyddedu i osod amodau yr ystyrir yn angenrheidiol ar drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat.

Gan fod y cymwysterau a meini prawf statudol ac ymarferol ar gyfer gyrrwr cerbyd hurio preifat yn debyg i rai gyrrwr cerbyd hacni, gweler penawdau perthnasol Cerbydau Hacni:

- Cod Ymddygiad
- Cod Gwisg ar gyfer Gyrwyr Trwyddedig
- Oedran a Phrofiad
- Gweithdrefn Ymgeisio
- Gwiriad Trwydded Gyrrwr y DVLA
- Profi Ymgeiswyr
- Perthnasedd Euogfarnau a Rhybuddiadau
- Rhoi Trwyddedau
- Adnewyddu Trwyddedau.

# 11. Cerbydau Hacni Difodur (yn Cael eu Pweru gan Bobl)

## Cerbydau Hacni sy'n Cael eu Pweru gan Bobl

Unrhyw yrrwr cerbyd hacni difodur nad yw'n ofynnol iddo / iddi ddarparu tystiolaeth benodol o gymhwysedd i yrru'r cerbyd trwyddedig, ystyrir ei bod yn ddigonol bod gan y gyrrwr drwydded yrru'r DVLA. Atodiad A.

## Cerbydau Hacni Car a Cheffyl

**Gweithdrefn Ymgeisio – Gyrrwr**

Bydd y rheiny sy'n dymuno gwneud cais am drwydded i yrru cerbyd hacni difodur yn unig, ar ôl cais llwyddiannus, yn derbyn trwydded gyrrwr cerbyd hacni.

Gwneir cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni difodur yn unol â'r un meini prawf â gyrrwr cerbyd hacni modur fel y'u nodir yn Atodiad E.

Ni roddir trwydded i yrru cerbyd hacni difodur i unigolyn sydd dan 18 mlwydd oed.

Os yw'r cais yn ymwneud â cherbyd sy'n cael ei dynnu gan geffyl, mae'n rhaid i'r gyrrwr ddarparu tystiolaeth i'r Awdurdod ei fod yn gymwys i yrru ceffylau mewn harnais. Mae Ardystiad Cymdeithas Yrru Prydain Lefel 3, Cymhwyster Diogelwch Gyrru ar y Ffyrdd ar gyfer Parau a Cheffylau Unigol, yn ofynnol.

**Gweithdrefn Ymgeisio – Perchennog**

Dim ond trwyddedau cerbyd hacni ellir eu rhoi i gerbydau difodur, ac ni ellir eu trwyddedu ar gyfer hurio preifat, oherwydd diffinnir cerbyd hurio preifat fel 'cerbyd modur'.

Cyn i drwydded cerbyd hacni gael ei roi, mae'n rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod y cerbyd yn addas i'r diben. Er mwyn canfod a yw'r cerbyd yn addas, bydd yn rhaid i'r perchennog ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- Addasrwydd y cerbyd i'r ffordd fawr (drwy dystysgrif a roddir gan archwilydd a gymeradwywyd gan y Cyngor)
- Defnyddioldeb yr offer ategol (drwy dystysgrif a roddir gan archwilydd a gymeradwywyd gan y Cyngor)
- Addasrwydd a phriodoldeb y ceffylau a ddefnyddir (drwy dystysgrif a roddir gan filfeddyg a gymeradwywyd gan y Cyngor)
- Pasbortau ceffylau ar gyfer y ceffylau a ddefnyddir
- Polisi yswiriant sy'n briodol ar gyfer hurio cyhoeddus ac sy'n cwmpasu atebolrwydd trydydd parti yn ymwneud ag anaf corfforol neu farwolaeth yn ogystal â difrod i eiddo personol.

**Perchnogion – Amodau**

Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu y grym i osod amodau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol yn rhesymol wrth drwyddedu cerbydau hacni.

Mewn perthynas â cherbydau a dynnir gan geffyl, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn ystyried bod yr amodau a nodir yn Atodiad A yn rhesymol angenrheidiol.

# 12. Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – Mesurau Disgyblu a Gorfodi

Yn unol â'i amcanion i annog busnesau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat cyfrifol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithredu trefn ddisgyblu a gorfodi gadarn ond teg. Gyda'r nod o gydbwyso hyrwyddiad diogelwch y cyhoedd â'r angen i ganiatáu unigolion i ddiogelu eu bywoliaeth heb ymyrraeth ormodol.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymyrryd dim ond pan fo'n angenrheidiol a chymesur i wneud hynny, gan roi sylw i'r amcanion a amlinellir yn y datganiad cyflwyniad.

Bydd yr Awdurdod yn rheoleiddio'r fasnach drwyddedig yn unol â Chod Cydymffurfio Rheoleiddwyr a'r egwyddorion a nodir yn ei Bolisi Gorfodi Gwarchod y Cyhoedd.

Egwyddorion cyffredinol cymesuroldeb, cysondeb, tryloywder, a thargedu gweithgareddau rheoleiddio dim ond mewn achosion pan fo gweithredu'n ofynnol.

**Ystod o Bwerau**

Lle y bo'n bosibl, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ceisio gweithredu dull gorfodi graddoledig, gan ystyried cosbau anhroseddol cyn cosbau troseddol.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu gymryd unrhyw rai o'r camau isod ar ôl derbyn tystiolaeth bod trosedd wedi ei chyflawni mewn perthynas â thrwydded cerbyd hacni neu drwydded gyrrwr. Gellir penderfynu bod unrhyw achos o dorri amod neu'r Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn drosedd yn y cyd-destun hwn.

- **Atal trwydded**
- **Dirymu trwydded**
- **Gwrthod adnewyddu trwydded**
- **Rhoi rhybuddion**
- **Gosod amodau pellach**
- **Erlyniad**

**Proses Ddisgyblu**

Bydd materion disgyblu, ac eithrio mewn achosion o dorri gofynion cerbydau, fel arfer yn cael eu hystyried gan y Pen Swyddog cyn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar bob mater disgyblu yn unigol ac yn ystyried effaith troseddau yn erbyn y gyfraith ar addasrwydd unigolyn i ddal trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat, a bydd yn cymryd y cam gweithredu sy'n briodol i'r amgylchiadau.

**Atal**

Dylid cadw cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat mewn cyflwr effeithlon ac eithriadol bob amser. Mae cydymffurfio ag amodau cerbydau yn hanfodol, a gorfodir hyn gan archwiliadau cyfnodol, ar hap, ar gerbydau ar ochr y ffordd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Os canfyddir nad yw unrhyw gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat yn cael ei gynnal a chadw'n iawn, rhoddir hysbysiad diffyg(ion) i'r perchennog yn nodi'r diffyg(ion), ac os yw diogelwch y cyhoedd mewn perygl, gwaherddir defnyddio'r cerbyd hyd nes i'r diffygion gael eu datrys. Ni chodir y gwaharddiad hyd nes i'r cerbyd gael prawf arall, ar gost y perchennog, ac iddo basio yn addas i'w ddefnyddio fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat.

**Atal Cerbyd am unrhyw Achos Rhesymol**

Os na ddarperir archwiliad trwyddedu cerbydau chwemisol (TC) gan berchennog yn dilyn ceisiadau gan Swyddogion Trwyddedu, bydd cerbydau'n cael eu hatal hyd nes y darperir Tystysgrif Cydymffurfiaeth (TC).

Os oes difrod sylweddol i gerbyd sydd, er nad yw'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, yn effeithio'n ddifrifol ar edrychiad y cerbyd, mae atal yn debygol hyd nes bod gwaith atgyweirio boddhaol wedi ei wneud.

Yn yr achosion hynny o atal lle mae'r archwilydd yn credu nad oes unrhyw berygl sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd, gellir gohirio'r ataliad drwy roi hysbysiad.

**Gyrwyr**

Gall yr Awdurdod Trwyddedu arfer ei ddisgresiwn i ddirymu / atal gweithrediad trwydded gyrrwr am gyfnod penodedig. Gellir cymryd camau o'r fath ar unwaith mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio, yr Aelod Cabinet a / neu Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol os yw swyddog awdurdodedig yn ystyried bod y camau hynny'n angenrheidiol er budd diogelwch y cyhoedd.

Os yw'r mater yn un lle nad oes perygl uniongyrchol i'r cyhoedd, gellir gwneud y penderfyniad i atal ar ôl gwrandawiad ger bron y Pwyllgor Trwyddedu priodol yn unig.

**Dirymu**

Gall y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol wneud penderfyniad hefyd ynglŷn â dirymu, ac ystyrir hyn fel arfer pan gyfeirir deiliad trwydded at y Pwyllgor am ei fod wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol neu ddifrifol, wedi bygwth diogelwch y cyhoedd, neu heb weithredu mewn ffordd addas a phriodol.

Mewn achosion lle mae perygl clir i ddiogelwch y cyhoedd, gellir dirymu trwydded ar unwaith gyda chydsyniad y Pennaeth Gwasanaeth, yr Aelod Cabinet a Phrif Swyddog Safonau Masnach a Thrwyddedu. Mae'n rhaid rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu hefyd.

**Erlyn / Rhybuddion Cosb Benodedig**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn erlyn deiliaid trwydded am droseddau perthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:

- **Pan fo'r honiad yn un o drosedd / natur ddifrifol neu fynych**
- **Os oes bygythiad wedi bod i ddiogelwch y cyhoedd**
- **Os yw erlyn er budd y cyhoedd.**

# 13. Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – Pwerau Dirprwyedig

**Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol**

Mae'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol yn gyfrifol am reoli trefn drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o fewn ffiniau'r Fwrdeistref Sirol.

**14.2 Swyddogaethau Dirprwyedig**

Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo ei swyddogaethau yn y ffordd ganlynol:

- Bydd y Pwyllgor yn ymdrin â cheisiadau a materion disgyblu a gyfeiriwyd ato gan Swyddogion Trwyddedu.

DRAFT

- Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet a / neu Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol, awdurdod dirprwyedig i atal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Adran 61 (2B).

- Nodir y gweithdrefnau ar gyfer gwrandawiadau yn Atodiad S.

- Mae gan Swyddogion Trwyddedu a awdurdodwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio bŵer i roi rhai trwyddedau ac i atal trwyddedau mewn rhai amgylchiadau. Mae gan Swyddogion y pŵer hefyd i roi rhybuddion ysgrifenedig ac ar lafar, a gallant ysgogi ymchwiliadau ac erlyniadau pan fo'n briodol.

- Mae gan Swyddogion Trwyddedu'r pŵer ar bob adeg resymol i archwilio a phrofi unrhyw gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat er mwyn canfod ei addasrwydd.

# 14. Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – Troseddau

**Troseddau (Atodiad G)**

Mae rhestr o droseddau posibl (Atodiad G) a chanlyniadau mewn perthynas â thrwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat wedi ei chael o'r ffynonellau canlynol:

- **Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847**
- **Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976**
- **Deddf Trafnidiaeth 1980**
- **Deddf Iechyd y Cyhoedd 1924**
- **Is-ddeddfau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
- **Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd)**
- **Deddf Cydraddoldeb 2010 / 2018**
- **Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.**

# 15. Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – Ffioedd

Mae'r ffioedd sy'n daladwy am roi ac adnewyddu, gweinyddu a gorfodi trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat wedi eu nodi yn nogfen Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Ffioedd y Gwasanaethau Rheoleiddio, dan Ffioedd Hacni a Hurio Preifat. Bydd copi o'r raddfa brisiau bresennol ar gael ar wefan Conwy, a rhoddir gwybod amdani pan wneir y cais cychwynnol.

DRAFT

**Taliadau**

Gellir talu ffioedd ar-lein; dros y ffôn (nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn arian parod na thaliadau siec).

**Ad-daliadau**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyhoeddi canllawiau ad-dalu. Atodiad V.

Mae'n rhaid i bob ad-daliad gael ei awdurdodi gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio neu drwy ddirprwyaeth i'r Prif Swyddog Trwyddedu.

Os rhoddir trwydded, ni ellir ad-dalu'r ffioedd.

DRAFT